**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 23 Mawrth 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| S J Gallagher | P R Hood-Williams | M Jones |
| H Lawson | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gavin Evans | Prif Swyddog Cymorth Cynnar, Partneriaeth a Phobl Ifanc |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Nia Pugh | Principal External Funding Officer |
| Anthony Richards | Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'I Atal |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |
| Elliott Williams | Rheolwr Cyllid Allanol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice

---

### 49 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd H Lawson gysylltiad personol â Chofnod 51, "Y Diweddaraf am y Rhaglenni Cyflogadwyedd".

### 50 Cofnodion:

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2022 fel cofnod cywir.

### 51 Cyngor Abertawe - Darpariaeth Cyflogadewyedd. (Llafar).

Darparodd Elliott Williams, Rheolwr Cyllid Allanol, ddiweddariad ar lafar am y rhaglenni cyflogadwyedd:

- Cafwyd cynnydd yn nifer y cyfeiriadau ar gyfer pobl â rhwystrau i gyflogaeth trwy gael gwared ar rai o'r rhwystrau hynny a rhoi cefnogaeth ychwanegol ar waith.
- Sicrhawyd £700,000 trwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol ar gyfer y prosiect peilot "Llwybrau at Waith" a gynhelir nes mis Mehefin;
- Cymeradwywyd y cais ar gyfer y Gronfa Adfywio Economaidd, a fyddai'n hybu llwyddiant y prosiect "Kickstart". Byddai hyn yn cefnogi lleoliadau gwaith a thâl amrywiol yn y cyngor a fyddai'n dechrau ym mis Ebrill/Mai;
- Byddai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn archwilio darpariaeth cyflogadwyedd yn y dyfodol ac yn darparu cyfleoedd i ystyried yr hyn a fyddai'n cael ei ariannu a'i ddatblygu ar ôl cyllid Ewropeaidd.
- Cyhoeddwyd arweiniad cyn lansio ym mis Chwefror a chynhaliwyd trafodaethau anffurfiol gyda phartneriaid cyn cyflwyno cais. Disgwylir y prosbectws llawn yn hwyrach yn y gwanwyn.

Darperir diweddariadau mwy cynhwysfawr ar bopeth uchod yn y misoedd nesaf.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Cyllid Allanol am yr holl gefnogaeth a ddarparodd i'r Pwyllgor Datblygu Polisi.

## 52 Datblygu Strategaeth Wirfoddoli Cyngor Abertawe. (Diweddariad Llafar)

Darparodd Anthony Richards, Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'i Atal ddiweddariad llafar mewn perthynas â datblygiad Strategaeth Gwirfoddoli Cyngor Abertawe.

- Sefydlwyd Gweithgor o swyddogion ar draws y cyngor, a gaiff ei hwyluso gan y Gwasanaeth Trechu Tlodi, ac maent yn cynnal cyfarfodydd yn gyson er mwyn cydgynhyrchu'r Strategaeth Gwirfoddoli;
- trefnwyd i gynnal y cyfarfod cyntaf yn hwyrach ym mis Mawrth. Byddant yn gweithio'n agos gyda Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe (CGGA) a phartneriaid Bae'r Gorllewin i sicrhau bod datblygiad strategaeth y cyngor yn cyd-fynd â'r Strategaeth Ranbarthol, sydd hefyd yn cael ei datblygu;
- byddai'r Gweithgor yn sefydlu'r broses ac yn cydgynhyrchu'r Strategaeth ar y cyd â'r rhanddeiliaid allweddol ac yn defnyddio'r holl gysylltiadau perthnasol gyda gwirfoddolwyr presennol a'r rheini sydd â diddordeb mewn bod yn wirfoddolwr er mwyn llywio datblygiad y strategaeth;
- Sefydlir pecyn cymorth hefyd ynghyd â dogfen y strategaeth, a fydd yn nodi'r adnoddau sydd ar gael i wasanaethau ar draws y cyngor i sicrhau ymagwedd gyson mewn perthynas â chynnal cyfleoedd i wirfoddolwyr.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'i Atal a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion am eu holl waith ac edrychodd ymlaen at dderbyn rhagor o ddiweddariadau yn y flwyddyn ddinesig newydd.

## 53 Strategaeth Gofalwyr Ifanc. (Diweddariad Llafar)

Rhoddodd Gavin Evans, Prif Swyddog Cymorth Cynnar, Partneriaeth a Phobl Ifanc ddiweddariad llafar ar y Strategaeth Gofalwyr Ifanc:

- Roedd gwaith gyda'r Gweithgor Gofalwyr Ifanc i gydgynhyrchu'r cynllun gweithredu/strategaeth yn parhau;
- cadarnhawyd cyllid trwy'r Gronfa Buddsoddi Rhanbarthol am flwyddyn arall;
- o ganlyniad i'r pandemig dros y ddwy flynedd diwethaf, roedd y Gofalwyr Ifanc wedi blaenoriaethu'r gwaith ar gyfer Diwrnod Gweithredu ar gyfer Gofalwyr Ifanc. Daeth dros 100 o bobl i'r digwyddiad mawr i ddathlu'r diwrnod, a gynhaliwyd ar 16 Mawrth yn Neuadd Brangwyn. Y thema oedd "Gweithredu ar Unigedd". Dosberthir ffotograffau a gohebiaeth yn dilyn y digwyddiad yn fuan.
- Bydd dau gyfarfod nesaf y Gweithgor Gofalwyr Ifanc yn canolbwyntio ar gyfuno'r holl waith a wnaed hyd yn hyn mewn perthynas â llunio'r cynllun gweithredu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog am y diweddariad ac edrychodd ymlaen at ragor o ddiweddariadau yn ystod blwyddyn ddinesig 2022-2023.

**54 Cynllun Gwaith 2021-2022.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith a oedd yn amlinellu'r gwaith a wnaed yn ystod 2021-2022.

Diolchodd i'r Pwyllgor a'r holl swyddogion a oedd wedi cyfrannu am eu cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.20 pm

**Cadeirydd**